Mae'r holl swyddi'n agored i'w rhannu os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ysmygu yn y gweithle.

## HYSBYSEB RÔL

**TEITL Y RÔL:** Cynorthwydd Gwasanaethau Cyfleusterau/Cogydd - Arlwyo

PARHAOL

**RHIF ADNABOD Y SWYDD:** SAS111

**GRADD:** BAND D SCP 9-13 £20,344 – £22,021

**ORIAU:** 37 Per Week

**LLEOLIAD:** Cyfleuster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Monnow Vale ond gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni thelir treuliau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

**ASESIAD Y GYMRAEG:**

Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

**PWRPAS Y RÔL:**

Darparu'r safonau uchaf o ran arlwyo, hylendid a diogelwch i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a staff, heb oruchwyliaeth reolaidd ac yn medru gweithio fel rhan o dîm.

Yn ymgymryd ag ystod o ddyletswyddau coginio sydd yn cynnwys paratoi diodydd, byrbrydau a chinio bys a bawd weithiau ar gyfer cleifion a staff o fewn yr Ymddiriedolaeth ac ymgymryd â'r holl ddyletswyddau perthnasol sydd yn rhan o wasanaeth arlwyo.

Darparu gwasanaethau i gleifion, staff a defnyddwyr gwasanaeth fel sydd angen ac yn briodol.

Yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch cyfredol ac yn ymgymryd â'r dyletswyddau yn unol gyda'r polisiau a'r safonau COSHH o ran gwaredu ar wastraff fel sydd wedi ei amlinellu yn y llawlyfr gwasanaethau gweithredol.

**Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl:-**

1. Paratoi'r holl brydau, byrbrydau, salad, brechdanau i gleifion, staff ac ymwelwyr.
2. Yn diwallu anghenion deiet arbenigol yn unol gyda'r fwydlen sydd wedi ei chytuno. Gweithio gyda'r staff nyrsio a deietegwyr yr ymddiriedolaeth o ran anghenion deietegol arbenigol.



3. Gweithio gyda chwsmeriaid y gwasanaeth, gan gynnwys adrodd ac ymateb i'w ceisiadau/ymholiadau yn syth. Yn sicrhau bod prydau bwyd o'r safonau uchaf yn cael eu creu i gleifion a staff a bod modd cynnal y fath safonau.
4. Glanhau'r brif gegin a'r cyfarpar yn ddyddiol, yn unol â'r cyfarwyddiadau glanhau a'r safonau hylendid fel sydd wedi eu diffinio gan Ddeddfwriaeth Diogelwch Bwyd.
5. Rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion ar gyfarpar, ffabrig yr adeilad neu'r cyfleusterau i linell gymorth yr ymddiriedolaeth fel bod modd eu cywiro yn syth.
6. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sydd yn gymesur gyda gradd cynorthwyydd coginio/arlwyo.
7. Ymgymryd ag unrhyw waith glanhau dyddiol ac wythnosol fel rhan o'r rota a'r amserlenni glanhau, gwisgo'r dillad priodol ayyb, a hynny yn unol gyda'r dulliau a'r amllder sydd angen.
8. Defnyddio'r deunyddiau glanhau/hylif sterileiddio cywir (gan gynnwys defnyddio codau lliw) fel bod modd cynnal y safonau uchaf posib o ran glendid.
9. Darparu'r gwasanaeth bwyd a diodydd i'r cleifion, staff a chwsmeriaid. Yn rhoi prydau i westeion drwy'r Gwasanaeth Gweini o fewn yr ystafell ddydd neu ystafelloedd unigol, ynghyd ag i'r staff ac ymwelwyr drwy gyfrwng y bwyty neu'r lle manwerthu.
10. Rhoi cymaint o fwyd/diod i'r cwsmer fel sydd wedi ei nodi.
11. Cynorthwyo o baratoi, darparu prydau bwyd i staff/ymwelwyr ac ymgymryd â dyletswyddau lletygarwch.
12. Rheoli diogelwch a safonau bwyd drwy fonitro tymheredd bwyd yn barhaus yn unol gyda gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac arferion gwaith da.
13. Ail-lenwi peiriannau gwerthu bwyd pan fydd angen.
14. Glanhau'r bwyty, man gweini, peiriannau gwerthu bwyd, lle manwerthu a lleoedd eraill ac unrhyw gyfarpar perthnasol.
15. Yn sicrhau bod unrhyw fwyd sydd yn cael ei dderbyn ar y tymheredd cywir ac yn dderbyniol o ran ansawdd cyn cwblhau'r ffurflenni monitro perthnasol.
16. Cwblhau ceisiadau am nwyddau a stoc ar ran y bwyty a'r lle manwerthu yn dilyn archwiliad o'r nwyddau sydd ar gael.
17. Yn sicrhau bod y rhewgelloedd, oergelloedd, manau paratoi bwyd, ystafelloedd storio, sinciau, waliau'r ystafell gotiau a lloriau oll yn lân ac yn cydymffurfio gyda'r safonau angenrheidiol.

18. Gweithio gyda'r uwch gogydd ar y fwydlen a'r lefelau stoc, cynhwysion a'r eitemau nad oes modd eu bwyta. Yn rheoli bwydydd a'u storio bwydydd a chynnal lefelau rhesymol o stoc.
19. Gweithio gyda chwsmeriaid y gwasanaeth, yn adrodd ac yn ymateb i'w ceisiadau ac ymholiadau yn syth. Yn sicrhau bod pryddau bwyd o'r safon uchaf posib yn cael eu creu i gleifion, staff ac ymwelwyr a bod y safonau uchel yma yn cael eu cynnal.
20. Glanhau'r brif gegin a'r cyfarpar yn ddyddiol yn unol gyda'r safonau hylendid fel sydd wedi eu manylu mewn Deddfwriaeth Diogelwch Bwyd.
21. Yn sicrhau bod yr holl droliau yn y gegin, y cyfarpar, y byrddau ayyb yn lan a sicrhau bod yr holl badelli, crochenwaith, cyllyll a ffyrc ayyb yn cael eu sterileiddio yn y lle golchi.
22. Yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth angenrheidiol pan yn cael gwared ar wastraff bwyd.
23. Cynorthwyo i baratoi diodydd, darparu a chasglu bwydydd ac ymgymryd ag unrhyw dasgau glanhau.
24. Yn sicrhau bod cardiau bwydlen y cleifion yn cael eu casglu, yn helpu cleifion eu cwblhau drwy sicrhau dealltwriaeth eang o'r bwydydd sydd ar gael.
25. Gweithredu'r gofrestr arian yn unol gyda'r gweithdrefnau sydd wedi eu cytuno gan yr Ymddiriedolaeth.
26. Yn gwybod ac yn deall anghenion deietegol bwydo cleifion.
27. Bydd disgwyl i'r deiliad swydd i gydymffurfio gyda ryseitiau safonol, cyflwyno'r bwyd yn dda a rheoli faint o fwyd sydd yn cael ei roi, gan gynnwys paratoi a rhannu bwyd er mwyn ei gadw'n oer, ei osod yn y rhewgell neu ei gadw'n dwym.
28. Paratoi byrddau ar gyfer cinio bys a bawd.
29. Yn golchi ac yn diheintio padelli/crochenwaith/teclynnau a chyllyll a ffyrc, a hynny gan gyda llaw neu drwy ddefnyddio'r peiriant.
30. Glanhau'r cyfarpar, arwyneb gwaith, oergelloedd, lloriau, waliau, silffoedd, yn unol gyda'r amserlenni a'r anghenion glanhau.
31. Yn glanhau'r man gweini, bar byrbryddau, byrddau bwyta, seddau, y llawr, sgertins a manau talu.
32. Bydd y deiliad swydd yn sicrhau'r defnydd diogel ac economaidd o eiddo'r GIG gan gynnwys bwyd, deunyddiau ac arian.

33. Gwahanu unrhyw gyfarpar a ddefnyddir ac ar gyfer glanhau mannau bwyd risg uchel.
34. Derbynn/dadlwytho bwyd, deunyddiau a chyfarpar.
35. Gosod bwydydd yn y mannau storio priodol.
36. Cludo nwyddau a deunyddiau fel rhan o'r hyn sydd angen yn ddyddiol ar gogyddion.
37. Cyfathrebu gyda chleifion, ymwelwyr a chydweithwyr ar faterion o ddydd i ddydd sydd yn ymwneud gyda Gwasanaethau Cyfleusterau.
38. Sefydlu perthynas effeithiol gyda chleifion, ymwelwyr a chydweithwyr ac ymateb yn briodol i gwsmeriaid.
39. Cydymffurfio ag anghenion glanhau yn unol gyda chanllawiau atal heintiau er mwyn sicrhau bod hyn yn cyfrannu at y broses o reoli heintiau yn dod i gysylltiad gyda'i gilydd a halogi, yn unol gyda Pholisïau, Gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd a'r canllawiau Adrannol.
40. Yn defnyddio, cynnal ac yn storio'r cyfarpar a'r deunyddiau yn ddiogel a chywir gan gydymffurfio gyda rheoliadau ac arferion COSHH.
41. Yn cydymffurfio gyda'r codau lliw sydd yn berthnasol yn y lle gwaith. Yn casglu sbwriel, gwastraff ac yn cael gwared ohono yn unol gyda pholisi. Byddwch yn ofalus am y risgiau a bydd angen cwblhau'r tasgau glanhau drwy geisio peidio ag aflonyddu cydweithwyr, staff, cleifion a gofalwyr.
42. Ail-lenwi eitemau stoc yn dilyn canllawiau cyfnewid stoc dda.
43. Yn sicrhau bod unrhyw beth sydd yn cael ei dywallt yn cael ei lanhau er mwyn osgoi'r risg o bobl yn llithro ar lawr gwlyb.
44. Perfformio eich dyletswyddau i'r safon uchaf gan ddefnyddio adnoddau yn effeithiol ac effeithlon, cynnal ansawdd a chyfrannu at welliannau.
45. Rhoi gwybod am ddiffygion/pryderon a'r risg o gyfarpar, ffabrig yr adeilad neu gyfleusterau, pethau peryglus, plâu a pheryglon iechyd, i'r rheolwr llinell.
46. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol sydd yn gymesur gyda gradd cynorthwydd cyfleusterau
47. Mae gwybodaeth bersonol a llawer iawn o ddyletswyddau'r rôl hon yn gyfrinachol o ran eu natur. Mae unigolion sydd wedi eu cyflogi gan yr ymddiriedolaeth yn gyfrifol am unrhyw gofnodion y maent yn creu, defnyddio neu'n trin. Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi ei sefydlu a'i ddiffinio gan y gyfraith. Mae'r holl weithwyr sydd yn gweithio i'r GIG neu o fewn y GIG ac yn cofnodi, trin, storio neu ddod ar draws gwybodaeth yn meddu ar ddyletswydd o gyfrinachedd. Mae'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (GDPR erbyn hyn) nawr yn

gosod cyfyngiadau ar y defnydd a wneir o wybodaeth bersonol gan gynnwys gwybodaeth iechyd. Rhaid i'r holl staff gydnabod pwysigrwydd cofnodion iechyd a'u cyfrifoldebau personol.

### **Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-**

1. Cwblhau gwaith papur/amserlenni fel y cyfarwyddir a chynorthwyo i gwblhau archwiliadau
2. Cyfrannu at eich datblygiad personol eich hun a gweithio tuag at a chynnal holl amlinelliad y swydd o fewn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau.
3. Helpu a chynorthwyo i hyfforddi staff newydd.
4. Cynorthwyo cydweithwyr o fewn y Gwasanaethau Cyfleusterau i gynnal lechyd a Diogelwch a diogelwch cleifion, ymwelwyr a chydweithwyr drwy ddarparu awyrgylch glân a diogel yn unol gyda'r safonau sydd angen.
5. Yn ymwybodol ac yn cydymffurfio gyda Pholisïau, Protocolau a Chanllawiau'r Bwrdd lechyd.
6. Chi sydd yn gyfrifol am gyfyngu eich gweithredoedd i'r hyn yr ydych yn hyderus i'w wneud. Os oes gennych unrhyw amheumon ynglŷn â'ch cymhwysedd tra'n ymgymryd â'ch dyletswyddau, dylech siarad gyda'ch rheolwr llinell/goruchwylydd yn syth.
7. Os yw manylion mudiad proffesiynol yn anghenraid o ran goruchwyliaeth, cyfrifoldeb y deiliad swydd yw sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r anghenraid hwn. Os ydych yn ansicr ynglŷn ag a yw'r anghenraid yn bodoli, siaradwch gyda'ch rheolwr.
8. Elfen gyffredin o rôl a chyfrifoldeb holl staff Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw eu bod yn rhagweithiol wrth reoli risg ym mhopeth a wneir. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiadau risg o'r holl sefyllfaoedd o waith Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a chymryd camau priodol a rhoi gwybod am ddigwyddiadau, neu beryglon. Fel aelod o Fwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, byddwch yn gyfrifol am adnabod a rhoi gwybod am unrhyw risgiau a fydd yn cael eu gosod ar gofrestr risg Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
9. Fel gweithiwr Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, rydych yn gyfrifol mewn cyd-destun cyfreithiol am yr holl gofnodion yr ydych yn casglu, creu neu'n defnyddio fel rhan o'ch gwaith o fewn y mudiad (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y cleifion, data ariannol, personol a gweinyddol) p'un ai bod hyn ar bapur neu ar gyfrifiadur. Mae'r holl gofnodion yn cael eu hystyried yn gofnodion cyhoeddus ac mae gennych ddyletswydd o gadw cyfrinachedd tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth ar ôl i'r gweithiwr adael Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan). Dylech ymgynghori eich rheolwr os oes unrhyw amheumon gennych ynglŷn â'r ffordd y mae cofnodion yn cael eu rheoli.

10. Mae holl weithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn meddu ar ddyletswydd statudol o ofal ar gyfer eu diogelwch eu hunain ac eraill sydd o bosib yn cael ei effeithio gan yr hyn y maent yn gwneud neu'n methu gwneud. Rhaid i weithwyr gydweithio gyda rheolwyr er mwyn sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cwrdd â'i ddyletswyddau cyfreithiol ac yn rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu gyfarpar diffygiol.

## **DATGANIAD HYBLYGRWYDD**

Mae cynnwys y swydd-ddisgrifiad hon yn amlinellid o'r rôl yn unig, ac nid yw'n rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau. Mae'r swydd-ddisgrifiad yn hyblyg a bydd o bosib yn cael ei hadolygu a'i diwygio os yw amgylchiadau yn newid, a hynny yn dilyn ymgynghoriad gyda'r deiliad swydd.

## **CYFRINACHEDD**

Mae disgwyl i holl weithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynnal cyfrinachedd aelodau'r cyhoedd ac aelodau staff, a hynny yn unol gyda pholisïau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

## **CYDRADDOLDEB**

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cymryd pob cam ymarferol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio, rheoli, datblygu, hyrwyddo a gwobrwyo ar sail rhinweddau a bod cyfle cyfartal yn cael ei roi i bawb. Mae pob un gweithiwr yn gyfrifol am ei ymddygiad proffesiynol a phersonol, ac mae angen staff i ymddwyn mewn modd na sydd yn tramgwyddo pobl eraill.

## **Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:-**

- Diwylliant ac awyrgylch sydd wedi ymrwymo integreiddio cymorth busnes yn ei ffurf ehangach
- Goruchwyliaeth a chyswllt rheolaidd gyda chydweithwyr cefnogol

## **Beth arall sydd angen i chi wybod.....Dyma Werthoedd Cyngor Fynwy:**

- Tryloywder: Rydym am geisio bod yn agored ac onest er mwyn datblygu perthynas lle y mae pobl yn medru ymddiried yn ei gilydd.
- Tegwch: Rydym am geisio cynnig dewis teg, cyfleoedd a phrofiad ac i ddod yn fudiad lle y mae'r naill yn parchu'r llall.
- Hyblygrwydd: Rydym am geisio bod yn hyblyg wrth feddwl a gweithredu er mwyn dod yn fudiad effeithiol ac effeithlon.
- Gwaith tîm: Rydym am geisio gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

**Yn ychwanegol at hyn:**

Mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymddwyn bob tro mewn ffordd sydd yn gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd perthnasol ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ysmygu yn y Gweithle a rhaid i'r holl staff gydymffurfio gyda hyn.

## Manyleb Person

**Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-**

	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
<b>Addysg a Hyfforddiant</b>		
Addysg gyffredinol sylfaenol	Ydy	
Llythrennedd a Rhifedd	Ydy	
Tystysgrif Hylendid Bwyd Sylfaenol		Ydy
Parodrwydd i gwblhau hyfforddant statudol a gorfodol	Ydy	
Parodrwydd i fynd ar hyfforddiant fel sydd angen fel rhan o'r rôl	Ydy	
<b>Gwybodaeth a Phrofiad</b>		
Profiad i weithio mewn awyrgylch sydd yn ffocysu ar gwsmeriaid.	Ydy	
Gweithredu practis lechyd a Diogelwch yn y gweithle a phractis gwaith diogel	Ydy	
Dealltwriaeth o ryseitiau a dulliau creu bwyd safonol	Ydy	
<b>Sgiliau</b>		
Yn medru cyfathrebu yn effeithiol gyda sgiliau rhyngpersonol da	Ydy	
Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau	Ydy	
Yn medru cyrraedd a chynnal safonau uchel	Ydy	
Yn ddibynadwy ac yn medru rheoli amser yn dda	Ydy	
Y gallu i barhau yn effeithiol o dan bwysau	Ydy	
Yn medru gweithio fel rhan o dîm	Ydy	
Yn medru ysgogi eich hun ac yn frwdfrydig	Ydy	
Sgiliau gofal cwsmer ardderchog	Ydy	

Y gallu roi argraff bositif ohonoch chi'ch hun a'r mudiad	Ydy	
Y gallu i siarad Cymraeg		Ydy
Sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol Microsoft office a word		Ydy
<b>RHINWEDDAU PERSONOL</b>		
Yn medru bod yn hyblyg i anghenion y gwasanaeth	Ydy	
Yn gyfarwydd gyda'r maes gwasanaeth a newid arferion fel sydd angen	Ydy	
Yn drwsiadus, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch	Ydy	

**Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Tracy Frankland      Arweinydd y Ganolfan Fusnes  
Ffôn: 01600 773113**

**Dyddiad Cau: 12pm ar Dydd Gwener 03.05.2019**



**FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG**

**LEFEL 1**

*Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir.</li> <li>➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.</li> <li>➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.</li> </ul>

**LEFEL 2**

*Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol</li> <li>➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion.</li> <li>➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg.</li> <li>➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod</li> <li>➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad</li> </ul>

**LEFEL 3**

*Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgyrsiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol.</li> <li>➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd.</li> <li>➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyddestun os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.</li> </ul>



➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.

#### LEFEL 4

*Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith.</li> <li>➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen.</li> <li>➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol.</li> <li>➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion.</li> <li>➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur.</li> <li>➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.</li> </ul>

#### LEFEL 5

*Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddilyn pob sgws a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr.</li> <li>➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth</li> <li>➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol.</li> <li>➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.</li> </ul>